## CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL

**Adroddiad i'r:** **Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus**

**Dyddiad y cyfarfod:** **18 Rhagfyr 2023**

**Teitl:** **Torri Porfa**

**Pwrpas yr adroddiad:** Darparu gwybodaeth ar Raglen Torri Porfa'r Cyngor

**Rheswm paham y bu i'r Pwyllgor Craffu ofyn am y wybodaeth:**

Er gwybodaeth

**Cefndir**

Mae'r papur hwn yn nodi sut caiff y gwasanaeth Torri Porfa ei reoli, y rhesymeg y tu ôl hyn a'r costau cysylltiedig.

Yn 2014 – 15 gostyngwyd prif doriad ymyl y ffordd i un toriad. Gwnaed hyn yn sgil toriadau a wnaed i'r gwasanaeth yn dilyn adolygiad o Wasanaethau'r Cyngor y flwyddyn honno. Drwy gydnabod hyn penderfynwyd torri mewn ardaloedd penodol yn hytrach nag yn ôl hierarchaeth ffyrdd, er bod rhywfaint o drawsgroesi. Gweler Atodiad 1.

**Y sefyllfa gyfredol**

Yn y drefn gyfredol bydd angen gwneud toriadau ar sail 'diogelwch / gweledeedd' yn gyntaf (cyffyrdd a llinellau gweledeedd) ac yna'r ardaloedd sy'n tyfu'n gynnar. Yn sgil yr hinsawdd mae'r tyfiant yn gynt yn y de felly rydym yn gweithio o'r de i'r gogledd.

Mae 70% o'n rhwydwaith yn Ffyrdd Dosbarth C a Ffyrdd Di-ddosbarth ac mae llwyddo i fynd i'r holl lonydd cul yn her. Wrth gwrs mae adnoddau'n brin ac ni allwn dorri bob ymyl y ffordd ar yr un pryd, felly bydd rhai yn cael eu torri'n gynt nag eraill. Naill ffordd mae'n bosib y bydd amseriad y toriadau yn denu cwynion.

Mae ein contractwr wedi bod yn torri profa ers nifer o flynyddoedd ac rydym yn ceisio peidio â gwyro'r contractwr o'r rhaglen am fod costau ychwanegol yn gysylltiedig â hyn.

Fodd bynnag, gellir newid y rhaglen os oes angen am resymau diogelwch y ffyrdd. Bydd Swyddog yn archwilio pob cais i dorri porfa a dderbyniwyd gan asesu a yw'r rheswm yn ddigonol i wyro adnoddau.

Mae'n cymryd oddeutu 6 wythnos i gwblhau'r prif doriad.

Byddwn hefyd yn cynnal cyfarfod briffio gyda'n contractwr cyn y tymor torri ac ar ôl hynny.

Rhannwyd y Sir i 10 ardal.  Mae 9 ardal yn cynnwys ffyrdd y sir ac un ardal ar wahân ar gyfer y cefnffyrdd sef ardal rhif 10 caiff ei rheoli ar ran NMWTRA.

Gweler Atodiad 1

Mae'r gwahanol fathau o doriadau fel a ganlyn gyda'r bras ddyddiadau cychwyn a gorffen.  Mae'r rhain yn amrywio o un tymor i'r llall gan fod yn ddibynnol ar y tywydd a thyfiant.

Mae'r Awdurdod bob amser yn gorfod adolygu safonau yn y cytundebau lefel gwasanaeth er mwyn adlewyrchu'r gostyngiad yn y gyllideb i'r gweithgareddau cynnal a chadw priffyrdd amrywiol.

Mae blaenoriaethau yn y dyfodol yn debygol o arwain at ffocysu mwy ar risg a diogelwch y ffordd a llai ar ymddangosiad esthetaidd yr ardaloedd porfa a gaiff eu cynnal a'u cadw.

**Toriadau ar y Brif Ffyrdd:**

Mae contractwr yn gwneud y gwaith ar ran y Cyngor.  Mae hyn yn cynnwys yr holl waith o dorri ochr y ffordd a gwneir hyn gan dractor â pheiriant ffustio sy'n glwm wrth y tractor. Mae gan y peiriant yma uned dorri y gellir ei defnyddio ar ongl neu ei chodi a'i gostwng fel y galw er mwyn addasu i'r tir wrth iddo newid ar hyd ymyl y ffordd, hynny yw tir fflat neu fertigol ac unrhyw beth rhwng y ddau fath o dir.

Mae hwn yn doriad ar sail diogelwch yn hytrach na thoriad edrychiad da ac y mae'r gorffeniad yn arw ac yn waith 'torri a gadael'. Mae pen y torrwr yn fetr o led ac nid yw'n medru torri pob darn o borfa yn enwedig os yw'r darn rhwng y clawdd a'r ffordd yn gul iawn.

Mewn achosion lle mae'r darn rhwng waelod y clawdd a'r ffordd yn fwy o faint mae'n rhaid i'r tractor ei hun yrru ar ben y tir ac os bydd y tir yn feddal mae'n bosib y bydd y tractor yn marcio neu hyd yn oed yn gadael rhigol ar ei ôl.

Y nod yw cwblhau'r toriadau porfa o fewn cyfnod o 6 wythnos.

Mae'r canlynol wedi'i gynnwys yn yr hyn y mae'r contractwr yn ei godi am dorri porfa:

1. Tanwydd a'r holl nwyddau traul gan gynnwys llafnau newydd ar gyfer y peiriannau.
2. Gwariant o ran trwyddedau, cynhaliaeth, cynnal a chadw, ac unrhyw orbenion eraill wrth ddarparu offer, gweithredwyr a chyfarpar diogelu personol.
3. Rheoli traffig, gan gynnwys yr holl arwyddion, goleuadau, mesurau diogelwch a threfniadau rheoli traffig.
4. Yr holl gostau sy'n gysylltiedig â theithio i safleoedd ac oddi yno o fewn yr ardal y mae'r tendr yn ymwneud â hi (gan gynnwys teithio rhwng safleoedd) ynghyd â'r holl deithio cyn ac ar ôl pob cyfnod o waith.
5. Torri porfa â llaw o amgylch dodrefn stryd.

6. Cael gwared â'r toriadau sylweddol o borfa sy'n cael eu gadael ar y droedffordd neu'r ffordd gerbydau.

Mathau o doriadau y mae angen eu gwneud, y fanyleb a'r dyddiadau cychwyn (2023-24):

- Gwelededd / lleiniau gwelededd: wythnos yn cychwyn 15 Mai, gan ddechrau yn y de.
- Prif doriadau yn ardaloedd 5-9 yn y de: wythnos sy'n cychwyn 12 Mehefin 2023; Prif doriadau yn ardaloedd 1-4 yn y gogledd: wythnos yn cychwyn 03 Gorffennaf 2023.
- Eleni, ceir dau doriad cyffredinol ar ffyrdd dosbarth C ac un toriad ar y ffyrdd diddosbarth. Mae hyn yn amrywio bob yn ail flwyddyn rhwng ffyrdd dosbarth C a'r ffyrdd diddosbarth.
- Toriadau mewn mannau amwynder, ochrau/llethrau o fewn ardaloedd trefol. Oherwydd y peiriannau a ddefnyddir, gwneir hyn fel rhan o'r prif doriad.
- Llwybrau Beicio Ystwyth a Llanerchaeron: wythnos yn cychwyn 17 Gorffennaf 2023.
- Y Tîm Cynnal a Chadw Tiroedd sy'n torri'r borfa ar Lwybr Beicio Rheidol a'r llwybr cyswllt i Benparcau: wythnos yn cychwyn 17 Gorffennaf 2023.

Mae'r fanyleb ar gyfer toriadau mewn mannau amwynder wedi'i newid yn 2023-24 er mwyn ceisio sicrhau bod yna fwy o fannau ar gyfer blodau gwyllt mewn ardaloedd trefol. Y bwriad yw gwella'r holl leiniau lle ceir blodau gwyllt, a chreu rhestr o'r holl ardaloedd a fydd yn cynnwys lleiniau ar ochr y ffordd.

Mae disgwyl i nifer y safleoedd mewn ardaloedd gwledig aros yr un fath, ond bydd cynnydd yn y nifer o safleoedd trefol. Yn y dyfodol, caiff cynefinoedd eu rheoli ar safleoedd penodol. Mae'r newid hwn yn cael ei ysgogi gan yr angen i leihau ein heffaith ar yr amgylchedd a gwneud pethau'n wahanol.

Dros y flwyddyn neu ddwy nesaf, bydd y newid hwn yn y trefniadau torri porfa yn gwella'r amrywiaeth eang o fflora a ffawna yn ein hystâd werdd drefol.

**Torri porfa - mannau amwynder:**

Caiff y gwaith hwn o dorri porfa ei wneud yn fewnol gan y Tîm Cynnal a Chadw Tiroedd gan ddefnyddio peiriannau llai o faint y gellir eistedd arnynt sy'n medru casglu'r hyn a dorrir.

Mae manteision amgylcheddol a manteision o ran diogelwch i'r ffaith bod modd casglu'r borfa fel hyn. Mae'n cael gwared â sbwriel a sgil-gynhyrchion, sy'n golygu bod yna lai o weddillion i flocio'r gwteri ac mae'n lleihau'r risg o dân yn ystod cyfnodau poeth yr haf.

Gan fod y peiriannau yn llai o faint, maent yn gallu cyrraedd mannau nad oes modd i dractor mawr eu cyrraedd.

Caiff 408 o safleoedd amwynder unigol eu rheoli, gan gynnwys 27 o safleoedd newydd ar gyfer blodau gwyllt ac 17 o leiniau hanesyddol ar ochr y ffordd sydd o dan adolygiad.

Mae 63 o'r safleoedd yn cael eu rheoli ar ran Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru.

Ceir 24 o safleoedd sy'n cael eu cynnal a'u cadw'n drylwyr ac yn fanwl ac mae'r rhain yn cynnwys ysgolion, mynwentydd a pharciau megis Tir y Castell a Gerddi Fictoria.

Gweler Atodiad 1.

**Y Camau arferol – 4 toriad y tymor.**

Cerddir dros y mannau glaswelltog cyn pob toriad i gael gwared ar ddarnau mawr o sbwriel ac unrhyw bethau sydd wedi cronni, ac i leoli eitemau sefydlog megis caeadau tyllau ac ati a allai ddifrodi'r peiriant yn ystod y torri.
Caiff pob man ei drin fel safle torri a chodi, hynny yw, codir y toriadau ac eir â nhw i safle gwaredu y cytunwyd arno. Bydd uchder y toriad oddeutu 50-75mm.

*Toriad 1*
Bydd y toriad hwn yn cychwyn yn gynnar ym mis Ebrill a bydd yn cymryd tan ganol mis Mai i'w gwblhau. Bydd y toriad hwn yn cael ei ddiffinio fel toriad diogelwch a bydd yn cynnwys torri 1m o led o linell y cwrb neu'r llwybr troed sy'n rhedeg ar hyd y man glaswelltog.

Bydd man glaswelltog sydd rhwng 2 a 3m o led yn debygol o dderbyn toriad llawn fel nad oes darn bach o borfa yn cael ei adael heb ei dorri. Bydd pob man yn cael ei asesu'n unigol yn ôl ei faint a'i siâp.

*Toriad 2*
Fel toriad 1 ond bydd yn dechrau ganol mis Mai tan ddiwedd mis Mehefin.

*Toriad 3*
Fel toriad 1 ond bydd yn dechrau ym mis Gorffennaf tan ddiwedd mis Medi.

*Toriad 4*
Bydd yn dechrau ganol mis Awst tan ddiwedd mis Medi.

Bydd y toriad hwn yn torri a chasglu'r man yn llawn.

**Mannau Trefol â Blodau Gwyllt:**

**Y Camau arferol – 3 thoriad y tymor.**

Cerddir dros y mannau glaswelltog cyn pob toriad i gael gwared ar ddarnau mawr o sbwriel ac unrhyw bethau sydd wedi cronni, ac i leoli caeadau tyllau ac ati. Caiff pob man ei drin fel safle torri a chodi, hynny yw, codir y toriadau ac eir â nhw i safle gwaredu y cytunwyd arno. Bydd uchder y toriad oddeutu 75-100mm.

*Toriad 1*
Bydd y toriad hwn yn cychwyn yn gynnar ym mis Ebrill a bydd yn cymryd tan ganol mis Mai i'w gwblhau. Bydd y toriad hwn yn cael ei ddiffinio fel toriad diogelwch a bydd yn cynnwys torri 1m o led o linell y cwrb neu’r llwybr troed sy'n rhedeg ar hyd y man glaswelltog.

Bydd man glaswelltog sydd rhwng 2 a 3m o led yn debygol o dderbyn toriad llawn fel nad oes darn bach o borfa yn cael ei adael heb ei dorri. Bydd pob man yn cael ei asesu'n unigol yn ôl ei faint a'i siâp.

*Toriad 2*
Fel toriad 1 ond bydd yn dechrau ganol mis Mai tan ddiwedd mis Mehefin.

*Toriad 3*
Fel toriad 1 ond bydd yn dechrau ym mis Gorffennaf tan ddiwedd mis Medi.

Mae manyleb Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru (NMWTRA) yr un peth ag un Cyngor Sir Ceredigion o ran niferoedd y toriadau, ond mae gwahaniaeth o ran pryd y dechreuir torri gyda’u tymor nhw yn dechrau ym mis Mawrth.

**Mannau Cadwraeth ger y Ffordd:**

Bydd ardaloedd o laswellt yn cael eu cerdded cyn pob toriad er mwyn symud eitemau mawr a malurion porfa sydd wedi crynhoi ac i leoli cloriau tyllau mawr ac ati. Mae pob ardal yn cael eu trin fel safle torri a chodi. Mae hyn yn golygu y bydd popeth yn cael ei gasglu i safle gwaredu y cytunwyd arno. Bydd uchder y toriad yn cael ei osod rhwng 75-100mm.

Mannau Cadwraeth Natur ger y Ffordd

Safle 1: U1001 - Eglwys Fach
Ymyl dolydd gwair gyda diddordeb botanegol penodol.

Safle 2: C1040 - Llanilar
Safle cymysg iawn sydd wedi’i nodweddu’n dda, ac mae llawer o gofnodion botaneg yn cael eu cadw yma sy’n ei wneud yn safle gwerthfawr o ran parhad.

Safle 3: C1076 - Ysbyty Ystwyth
Yr unig ymyl o fath ucheldir yn y rhaglen RVNR bresennol ac mae'n cynnwys diddordeb botanegol penodol a chymunedau grug yn gyffredinol.

Safle 4: A485 - Tregaron
Diddordeb botanegol cyfyngedig ar ddechrau’r rhaglen, wedi’i ymgorffori er mwyn pennu effeithiau buddiol y cynllun ar ymyl y ffordd sy’n dlawd o ran rhywogaethau.

Safle 5: C1071 – Heol Betws Bledrws
Ymyl coetir gyda llawer o glychau’r gôg.

Safle 6: Heol Breifat – Comins Aberarth
Gwerth botanegol cymhedrol ar ddechrau'r cynllun, dylai wella gyda rheolaeth ystyriol.

Safle 7: U1555 - Ciliau Aeron
Cyfoethog o ran rhywogaethau mewn math o goetir.

Safle 8: U5180 – Derwen Gam
Cynefin llaith, gwyrdd, da sydd heb ei darfu ar y cyfan.

Safle 9: A486 - Post Bach - Synod Inn
Cyfoethog o ran rhywogaethau ac esiampl dda o warchodfa o fath dolydd gyda fioledau'r gwanwyn.

Safle 10: C1180 - Cwmtydu
Ymyl ffordd math coetir gyda blodau gwanwyn-haf cynnar da.

Safle 11: Llyn y Fran - Llandysul
Yn ddeniadol ac yn gyfoethog o ran rhywogaethau.

Safle 12: C1150 – Capel Dewi, Llandysul
Yn ddeniadol ac yn gyfoethog o ran rhywogaethau.

Safle 13: C1034 – Rhyd-y-Gwin, Llanfarian
Presenoldeb Caldrist llydanddail (*Epipactis purpurella*)

Safle 14: A485 - Llanilar
Garlleg gwyllt yn dominyddu ymyl y ffordd.

*Toriad 1*
Yn dechrau ar ddiwedd mis Medi tan ddiwedd mis Hydref.

Mae'r safleoedd hyn yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd er mwyn asesu eu gwerth amgylcheddol. Unwaith y bydd wedi'i gwblhau, gobeithio y bydd nifer o'r safleoedd yn medru cael eu rheoli o dan yr un drefn ag ardaloedd blodau gwyllt trefol.

**Costau'r Gwasanaeth: -**

Torri Amwynderau ac Ymyl Priffyrdd- £285,000

Cynnal a Chadw Tir - £176,000

**<u>Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:</u>**
**Oes Asesiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os na, esboniwch pam**
Nac oes. Mae'r adroddiad hwn er gwybodaeth yn unig.

**Crynodeb o'r Asesiad Effaith Integredig:**
**Hirdymor:** Mae'r Adroddiad er gwybodaeth yn unig

**Cydweithio:** Mae'r Adroddiad er gwybodaeth yn unig
**Cynnwys:** Mae'r Adroddiad er gwybodaeth yn unig
**Atal:** Mae'r Adroddiad er gwybodaeth yn unig
**Integreiddio:** Mae'r Adroddiad er gwybodaeth yn unig

**Argymhelliad / Argymhellion:**

Ddim yn berthnasol, mae'r papur er gwybodaeth yn unig.

**Rhesymau dros y penderfyniad:**

Ddim yn berthnasol, mae'r papur er gwybodaeth yn unig.

**Enwau Cyswllt:** Phil Jones, Jon Hadlow

**Teitlau Swyddi:** Rheolwr Corfforaethol – Gwasanaethau Priffyrdd; Rheolwr Cynnal a Chadw Tir

**Dyddiad yr Adroddiad:** 18/12/2023

**Acronymau:**

**Atodiad 1**

2014-15 Lleihad yn y gyllideb — Cabinet report on grounds maintenan

2023 cynlluniau a chanllawiau torri ymylon ffyrdd — Grass Cutting Areas North. Split 25-01-2; Grass Cutting Areas South Split 25-01-22; verge-hedge cutting guidance.dc

2023 lleoliadau torri amwynder — 2023-24 Highway Data.docx.xlsx